**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 7 Mawrth 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd W G Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Sefydliadau â Chynrychiolwyr** | |
|---|---|
| Alyx Baharie | CGGA |
| Moawia Bin-Sufya | Care after Combat |
| Kev Bogdan | Newid Cam |
| Glyn Davies | Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd |
| Bethan Dennedy | Swyddog Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Steve Fry | Dirprwy Raglaw |
| Swyddog Gwarantedig Dosbarth 1 Rob Govier | HMS Cambria |
| Jonathan Hinkin | Prifysgol Abertawe |
| Louisa Huxtable-Thomas | Prifysgol Abertawe |
| Anna Looker | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Adrian Rabey | Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig |
| Tom Sloane | Rygbi'r Gweilch |
| Stephen Sullivan | Hafal |
| Neil Tomlin | Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol |
| Kelly Walter | |
| Capten Huw Williams | Sgwadron 157 |
| John Williams | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Victoria Williams | Cyn-filwyr GIG Cymru |

| **Swyddogion** | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Bethan Dennedy | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Spencer Martin | Cydlynydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth |
| Natalie McCombe | Cydlynydd Ardal Leol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Louise Fleet, Sq Ldr Phil Flower, Thomas Hall, Antony Rabey, Sandy Shaw, Steve Spill a Yasmin Todd

---

## 130 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim

## 131 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Panel a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2022 yn gofnod cywir.

## 132 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.

Amlinellodd Bethan Dennedy fod y ddau gais gan Feicwyr y Lluoedd Arfog a Hyb Abertawe dan Gronfa Ymddiriedolaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi'u crybwyll yn y cyfarfod diwethaf ac wedi'u hystyried a'u cymeradwyo mewn cyfarfod diweddar gyda hi ei hun, y Cynghorwyr Wendy Lewis ac Alyson Pugh a Spencer Martin.

Nododd fod gwaith yn cael ei wneud ar arddangosfa pen-blwydd Brwydr Prydain ar hyn o bryd, ond bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu pan fyddant ar gael.

Mae cylchlythyr y Lluoedd Arfog ar gyfer mis Mehefin yn cael ei lunio ar hyn o bryd a gofynnodd i aelodau'r panel gyflwyno unrhyw erthyglau yr oeddent am eu cynnwys yn y cyhoeddiad.

## 133 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Dywedodd y Capten Huw Williams fod y gwasanaeth yn parhau i gynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwlans yn ei weithrediadau dyddiol, ac mae disgwyl i hyn barhau tan ddiwedd mis Mawrth ar hyn o bryd.

Nododd fod y stormydd diweddar wedi effeithio ar ddigwyddiadau diweddar a'u bod wedi achosi difrod i sawl coeden yn y Grange.

Mae disgwyl i'r hyfforddiant newydd ddechrau ym mis Ebrill, gyda nifer o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio ar draws y wlad.

Amlinellodd hefyd y bydd y gatrawd yn cael prif swyddog newydd ym mis Ebrill gyda'r is-gyrnol Briggs yn cymryd lle'r is-gyrnol Beaumont.

Dywedodd eto, pe bai pobl am i'r uned gymryd rhan yn y Jiwbilî Platinwm, wythnos y Lluoedd Arfog a'r Sioe Awyr, dylent gysylltu cyn gynted ag y bo'n ymarferol oherwydd y cliriadau diogelwch uwch, angenrheidiol sydd eu hangen i gymeradwyo digwyddiadau gyda phersonél y lluoedd arfog oherwydd yr hyn sy'n digwydd yn Wcráin.

## 134 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog

Amlinellodd Victoria Williams ei bod wedi derbyn 35 o atgyfeiriadau i'w gwasanaeth yn ystod y chwarter diwethaf, yr oedd 24 ohonynt wedi'u hasesu a 48 ohonynt hefyd wedi'u rhyddhau, ond soniodd fod y rhestr aros am wasanaethau tua 3-4 mis gyda 7 o bobl yn aros am asesiad ar hyn o bryd.

Amlinellodd y bydd cyfarfod nesaf y Rhwydwaith Clinigol yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf, mae croeso i bawb ac mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn bersonol yn y Bulldogs ym Maglan.

Amlinellodd fod y gwasanaeth ar hyn o bryd yn paratoi 'stori ddigidol' ar gyfer y wefan/cyfryngau cymdeithasol etc. ar yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu, a fydd yn rhoi trosolwg byr 2/3 munud o'r gwasanaeth cyn-filwyr yn ardal Bae Abertawe. Bydd stori o safbwynt claf hefyd yn cael ei recordio.

Amlinellodd fod y gwasanaeth newydd gwblhau archwiliad gwasanaethau Coleg Brenhinol y Ffisigwyr i sicrhau bod gwasanaeth o safon aur yn cael ei ddarparu. Nodwyd rhai diwygiadau i'r gwasanaeth a phum maes bach i'w mabwysiadu wrth symud ymlaen, megis taflenni gofalwyr.

Cynhaliwyd diwrnod cwrdd i ffwrdd gyda holl wasanaethau Cyn-filwyr y GIG yng Nghymru yn ddiweddar gyda'r nod o wella a datblygu pob gwasanaeth ar draws y wlad.

Dywedodd fod ei hymchwil ar Ailbrosesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR) ar drawma o ganlyniad i frwydro wedi'i hanfon i ffwrdd i'w chyhoeddi, a dywedodd fod y gwasanaeth ar fin dechrau treial rheoli ar hap arall yn cymharu therapi ar-lein â therapi wyneb yn wyneb.

## 135 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth

Nododd y Cadeirydd nad oedd Yasmin yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, ond ei bod wedi e-bostio gwybodaeth drwodd, a fyddai'n cael ei dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

## 136 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.

<u>Prifysgol Abertawe</u>

Cyflwynodd Louisa Huxtable-Thomas a Jonathan Hinkin eu hunain fel Hyrwyddwyr Lluoedd Arfog newydd y Brifysgol ac amlinellwyd bod y Brifysgol yn bwriadu ymuno â'r Cyfamod erbyn diwedd mis Mawrth.

Roedd y ddau ohonynt yn edrych ymlaen at weithio gydag aelodau'r panel.

<u>Y Lleng Brydeinig Frenhinol</u>

Amlinellodd John Williams fod ei sefydliad yn gwneud ymchwil ar fudd-daliadau i gyn-filwyr ac yn ceisio sefydlu bod pob awdurdod yn diystyru pensiynau rhyfel ac iawndal y lluoedd arfog wrth ystyried gostyngiadau treth y cyngor a hawliadau budd-daliadau tai. Byddai'n cysylltu â phob cyngor yn y wlad.

Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig

Amlinellodd Adrian Rabey fod y grantiau Rhwystrau i Ddechrau Busnes o hyd at £2,000 ar gyfer busnesau newydd ar gael hyd at ddiwedd mis Mawrth, yn ogystal â grantiau o £1,000 gan Gyngor Abertawe.

Mae'r rhaglen Balch gyda'r Gwasanaeth Sifil yn mynd yn fyw ddydd Iau, bydd y 10 person sy'n rhan o'r rhaglen yn ymgymryd â rhaglen 12 wythnos - 4 diwrnod o hyfforddiant yn y gwaith, gyda'r pumed diwrnod yn seiliedig ar fentora.

Mae'r academi Diogelwch gyda chyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dal i fod ar gael i gyn-filwyr di-waith, y bydd ganddynt swydd warantedig mewn rolau amrywiol ar draws Cymru erbyn y diwedd.

Amlinellodd hefyd fod 90% o gyllid ar gael ar gyfer Hyfforddiant Amddiffyn Agos, felly byddai'r gost i gyn-filwyr/milwyr wrth gefn yn £250, nid £200.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.20 pm

**Cadeirydd**